UMAber yn Dathlu

UMAber yn dathlu

AberSU celebrates

About Aber SU Celebrates

UMAber yn Dathlu yw ein cyfle bob blwyddyn I gydnabod gwaith caled a chyflawniad myfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth Dechreuodd UMAber yn Dathlu yn answyddogol 10 mlynedd yn ôl gyda Gwobrau Addysgu UM Aber, ac ers hynny rydym wedi ychwanegu gwobrau chwaraeon a chymdeithasau. 4 blynedd yn ôl, fe wnaethom frandio pob un o'r tair gwobr yma yn swyddogol fel 'UMAber yn Dathlu' ac fe'u hystyrir bellach yn wythnos o ddathlu llwyddiannau staff a myfyrwyr dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae'r gwobrau'n seiliedig ar enwebiadau a gynhelir yn ystod hanner cyntaf mis Mawrth bob blwyddyn. Mae panel o feirniaid yn cwrdd i ddarllen trwy bob enwebiad er mwyn penderfynu ar yr enillydd ar gyfer pob categori. Yna cynhelir UMAber yn Dathlu ym mis Mai ar draws tair noson wobrwyo, lle bydd enillwyr pob categori yn cael eu cyhoeddi.

Ynglŷn â phob noson wobrwyo:

Gwobrau’r Cymdeithasau: Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod cyfraniad cymdeithasau a myfyrwyr unigol i wella’r profiad ym Mhrifysgol Aber.

Gwobrau Staff a Myfyrwyr: Mae'r rhain yn cynorthwyo arfer gorau trwy dynnu sylw at ragoriaeth addysgu a chydnabod cyfraniadau staff a myfyrwyr at y profiad dysgu.

Gwobrau Chwaraeon: Mae’r gwobrau hyn yn cydnabod ymroddiad myfyrwyr i'w Clwb Chwaraeon, a’u cyfraniad yn gymdeithasol, yn gystadleuol ac yn broffesiynol.

UMAber yn dathlu
AberSU celebrates
UNDEB MYFYRWYR STUDENTS' UNION

UMAber yn dathlu
UNDEB MYFYRWYR STUDENTS' UNION

AberSU celebrates

UMAber yn dathlu

UMAber yn dathlu
AberSU celebrates
UNDEB MYFYRWYR STUDENTS' UNION

UNDEB MYFYRWYR STUDENTS' UNION

Categorïau Cymdeithasau

Gwobr Cymdeithasau
Aelod Cymdeithas y Flwyddyn
Personoliaeth Cymdeithas y Flwyddyn
Rhagoriaeth Weinyddol y Flwyddyn
Cymdeithas y Flwyddyn
Cyfraniad Mwyaf (Cymdeithas elusennol)
Gwobr Diwylliant Cymreig
Cymdeithas Academaidd / yn Seiliedig ar Gwrs y Flwyddyn
Cynaliadwyedd (Diwylliannol/Cymdeithasol Amgylcheddol ac Economaidd
Gwobr am Barodrwydd i Addasu a Gwydnwch
Lliwiau'r Brifysgol: Cymdeithasau (25)*

** Ddim ar gael ar gyfer noddi*

Categorïau Chwaraeon

Gwobrau Chwaraeon
Sport Person of the Year
Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn
Tlws Gwyn Evans
Tlws Mary Anne
Clwb y Flwyddyn
Y Cyfraniad Mwyaf (RAG)
Gwobr y Gymraeg
Gwobr am Barodrwydd i Addasu a Gwydnwch
Lliwiau'r Brifysgol: Chwaraeon (25)*

** Ddim ar gael ar gyfer noddi*

Beth sydd wedi'i gynnwys mewn trefniant noddi?

	Prif noddwr	Noddwr digwyddiad	Noddwr Unigol
Logo wedi'i gynnwys ym mhob e-bost at fyfyrwyr sy'n ymwneud ag UMAber yn Dathlu.	✓	✓	✓
Logo wedi'i gynnwys ar dudalen Facebook UMAber yn Dathlu.	✓	✓	✓
Sylw ar dudalen we UMAber yn Dathlu - gan gynnwys dolen i'ch gwefan.	✓	✓	✓
Presenoldeb eich brand ar bob deunydd marchnata.	✓	✓	
Eich cwmni wedi'i gysylltu ag un categori o'ch dewis (cyn belled â bod y categori'n berthnasol i'ch busnes. Bydd hyn hefyd ar sail 'y cyntaf i'r felin'	✓		
Postiadau penodol ar gyfryngau cymdeithasol yn cysylltu'ch busnes â'r categori o'ch dewis ar dudalen digwyddiadau Facebook a phrif wefannau cyfryngau cymdeithasol yr UM.	✓		
Cyflwyno gwobr ar y noson.	✓		
	£1000 (+VAT)	£500 (+VAT)	£100 (+VAT)

Beth Sydd Nesaf....

Cyswllt:

Paige Cradduck / **Cydlynydd Cyfryngau, Gwerthiant a Digwyddiadau**
Undeb Myfyrwyr Aberystwyth
Penglais, Aberystwyth, SY23 3DX
Union.marketing@aber.ac.uk
Tel: 01970 621704
www.abersu.co.uk

Rhif Elusen Gofrestredig #1150576